TAI CANOLBARTH CYMRU
MID-WALES HOUSING

Yn barod **amdani** **Equal** to the challenge

TAI FFORDDIADWY YNG NGHANOLBARTH CYMRU:

FFORDD DECACH O DDYRANNU TAI

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

TABL CYNNWYS

1. Cyflwyniad 2

2. Y Broses Ymgynghori 2

3. Crynodeb Gweithredol 3

4. Ymateb i'r Cwestiynau Allweddol 4

5. Camau Nesaf 9

5.2. Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru 9

5.3. Adolygu'r System Dyraniadau 9

5.4. Cofrestri Tai Cyffredin 10

5.5. Hyrwyddo Cyflogaeth 11

5.6. Hyrwyddo Gwirfoddoli/Bod yn Gymydog neu Ddinesydd Da 11

Atodiad 1 – Cwestiynau Allweddol 12

Atodiad 2 – Diffiniad o Nodweddion Gwarchodedig 13

1. Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr 2010 cyhoeddodd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru bapur ymgynghori dan y teitl 'Sut y dylid dyrannu tai fforddiadwy yn ardal Canolbarth Cymru'.

Cyflwynodd hyn ddadl fod diffyg tai fforddiadwy yng Nghanolbarth Cymru yn argyfwng ac y dylai ail-edrych ar y ffordd o orau i ddefnyddio cartrefi presennol er budd cymunedau Powys a Cheredigion fod yn rhan o'r datrysiad.

Cynigiodd system newydd a symlach a fyddai'n gwobrwyo ymgeiswyr yn dibynnu ar dair nodwedd allweddol – cyflogaeth, cyfraniad gwirfoddol a chysylltiad lleol.

Medrir gweld y papur ymgynghori llawn ar wefan y Gymdeithas:

http://www.mid-walesha.co.uk/english/static/assets/downloads/consultationdocument.pdf

2. Y Broses Ymgynghori

Cafodd y papur ymgynghori ei lansio'n swyddogol mewn dau ddigwyddiad ar 9 Rhagfyr 2010, un yn swyddfa Cyngor Sir Ceredigion yn Aberystwyth a'r llall yn swyddfa'r Gymdeithas yn Nhŷ Canol, Y Drenewydd.

Gwahoddwyd sefydliadau partner a rhanddeiliaid allweddol megis y ddau Gyngor Sir i fod yn bresennol yn y lansiad hwnnw.

Cafodd y papur ymgynghori ei lansio ar yr un pryd ar wefan y Gymdeithas, a dosbarthwyd copïau o'r papur at:

- Holl denantiaid y Gymdeithas
- Pob ymgeisydd ar restr aros y Gymdeithas
- Pob Cyngor Cymuned/Tref o fewn Ceredigion a Phowys (drwy eu Clercod)
- Holl Gynghorwyr Sir Powys a Cheredigion
- Rhanddeiliaid allweddol eraill yn cynnwys swyddogion y Cynghorau Sir, cyrff cynrychioladol fel Tai Pawb a'r Gymdeithas Tai Siartredig (CIH) yng Nghymru, a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill yn gweithredu yn y rhanbarth.

Cafodd y dyddiad cau dechreuol ar gyfer ymatebion (21 Ionawr 2011) ei ymestyn i 25 Chwefror 2011 ar gais rhai yr ymgynghorwyd â hwy.

Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried nifer o gwestiynau allweddol (gweler atodiad 1), ond cawsant hefyd eu hannog i gyflwyno sylwadau mewn unrhyw fodd y dymunent ar y materion a godwyd. Fel canlyniad, ni wnaeth pob un o'r ymatebwyr ateb yr holl gwestiynau a awgrymwyd.

3. Crynodeb Gweithredol

Derbyniodd y Gymdeithas gyfanswm o 68 ymateb. Dangosir y dadansoddiad o ymatebwyr yn Ffigur 1.



Ffigur 1

- Roedd 63% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi cynigion y Gymdeithas, yn neilltuol yr egwyddor o roi blaenoriaeth i bobl leol ac ymgeiswyr a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

- Mynegodd llawer o ymatebwyr y farn nad oedd y papur ymgynghori dechreuol yn rhoi digon o fanylion ar ddiffiniadau allweddol, megis 'mewn cyflogaeth', 'lleol' neu 'gyfraniad gwirfoddol', a theimlent y byddai'n bwysig cytuno ar ddiffiniadau clir er mwyn sicrhau gwrthrychedd pwysig.

- Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y medrai defnyddio un neu'r llall o'r tair nodwedd allweddol olygu gwahaniaethu anuniongyrchol yn erbyn ymgeiswyr gyda nodweddion gwarchodedig[1].

- Roedd peth pryder y byddai ymgeiswyr digartref dan anfantais ac y byddai ymgeiswyr eraill gyda lefel uchel o angen tai yn cael eu diystyru o blaid ymgeiswyr gyda lefelau is o angen.

[1] Y personau hynny gyda 'nodweddion gwarchodedig' dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

4. Ymateb i'r Cwestiynau Allweddol

A. Ydych chi'n teimlo fod cynigion y Gymdeithas yn rhoi ffordd briodol o ddyrannu ei chartrefi?

Atebodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y cwestiwn hwn un ai'n uniongyrchol neu o fewn cyd-destun y sylwadau cyffredinol a roddwyd, ac fel y dangosir uchod, cefnogai'r mwyafrif (63%) y cynigion. Dim ond pump ymatebydd (7.5%) oedd yn gwrthwynebu'r cynigion yn uniongyrchol, ac roedd eu prif bryderon yn ymwneud â'r effaith ar ymgeiswyr gyda nodweddion gwarchodedig a phosibilrwydd y byddai'r rhai yn yr angen mwyaf am gartref (megis y digartref) yn cael llai o flaenoriaeth.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi egwyddor gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol a fyddai'n ychwanegu gwerth i gymunedau lleol. Fodd bynnag, soniodd rhai am wrthdaro posibl megis pobl leol yn dychwelyd i'r ardal, a gaiff eu cyflogi ar hyn o bryd tu allan i'r gymuned y maent yn dychwelyd iddi, neu nad oedd ymgeiswyr sy'n gwirfoddoli mewn ardaloedd eraill yn cael blaenoriaeth. Mae'r holl enghreifftiau hyn yn cadarnhau'r angen am ddiffiniadau clir iawn o nodweddion y gall ymgeiswyr eu deall yn rhwydd, ac sydd hefyd yn parhau'n wrthrychol pan gânt eu hasesu gan staff.

> *Rwy'n croesawu unrhyw symudiad at ddiwylliant lle caiff cymryd rhan yn y gymuned, gweithgaredd economaidd a chydnabod angen i gefnogi pobl leol mewn tai fforddiadwy ei gefnogi a'i wobrwyo. Mae angen mawr am hyn i annog mwy o gydlyniaeth gymunedol ac adeiladu ymddiriedaeth mewn cymunedau sydd wedi teimlo fel pe bai preswylwyr yn dod i mewn nad oes ganddynt unrhyw ddymuniad i gyfrannu mewn unrhyw ffordd at y gymuned leol.* (Rhanddeiliad)

Soniodd yr ymatebwyr hynny oedd yn bryderus am ddiffyg cydraddoldeb i ymgeiswyr gyda nodweddion gwarchodedig am ymchwil sy'n dangos y byddai rhai sectorau o'r gymuned (rhai gyda nodweddion gwarchodedig) dan anfantais, oherwydd eu bod yn aml yn ei chael yn anos sicrhau cyflogaeth, ac argymhellwyd y dylid cynnal 'Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb' cadarn ar unrhyw gynigion a ddatblygwyd i sicrhau nad oedd unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol.

Holodd un ymatebydd os byddai'r cynigion yn cyrraedd y safon reoleiddiol, yn arbennig y canlyniad cyflawni: *'Rhoddwn flaenoriaeth resymol i'r rhai sydd yn yr angen mwyaf am gartref neu sy'n ddigartref'* ond mae ail ran y canlyniad cyflawni hwnnw hefyd yn dweud: '*cynyddu dewis i'r eithaf a chynnal cymunedau'.*

Teimlai'r ymatebwyr hynny a bryderai'n arbennig am ddarpariaeth tai i ymgeiswyr digartref y byddai hyn yn gostwng lefel y cymorth y byddai'r Gymdeithas yn eu rhoi i'r ddau Gyngor Sir wrth weithredu eu dyletswyddau cyfreithiol i'r digartref. Byddai defnyddio system trefn dyddiad syml i ddewis rhwng ymgeiswyr gyda blaenoriaeth debyg yn golygu fod ymgeiswyr digartref dan anfantais gan mai dim ond pan fyddant ar fin dod yn ddigartref y byddent yn gwneud cais.

Os na, pa newidiadau fyddech chi'n eu hawgrymu?

Teimlai nifer o'r rhai a ymatebodd nad oedd y Gymdeithas wedi mynd yn ddigon pell i roi blaenoriaeth i ymgeiswyr lleol, gan awgrymu y dylid rhoi pwysiad llawer mwy i gysylltiad

lleol yn y broses ddyrannu. Teimlai rhai y byddai pobl leol gyda llai o angen yn dal i beidio cael eu hystyried.

Roedd llawer o ymatebwyr, yn cynnwys y rhai oedd yn fras o blaid y cynigion, yn cydnabod bod angen mwy o eglurder ar gyfer y diffiniadau o 'lleol', 'mewn cyflogaeth' a 'cyfrannu'n wirfoddol at y gymuned'.

Teimlai nifer o randdeiliaid allweddol bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i sicrhau nad oedd ymgeiswyr digartref a rhai'n dianc rhag trais dan anfantais. Un awgrym oedd system o gwotâu neu fandio i sicrhau fod anghenion ymgeiswyr o'r fath yn cael eu trin mewn modd cymesur. Awgrymodd eraill y byddai rhyw fath o system 'disgresiwn' yn ei gwneud yn bosibl trin achosion difrifol iawn y tu allan i'r fframwaith dyrannu arferol.

Credai nifer o ymatebwyr y medrai gwirio manylion megis tystiolaeth o gyflogaeth fynd â gormod o amser staff a gwneud y cynigion yn aneffeithiol.

B. Ydych chi'n meddwl fod y cynigion yn rhoi cydbwysedd teg rhwng diwallu angen tai a hyrwyddo buddion eraill ar gyfer cymunedau lleol?

Cytunai mwyafrif yr ymatebwyr gyda'r datganiad hwn a dywedodd nifer sylweddol fod y modelau presennol yn methu rhoi ystyriaeth ddigonol i anghenion y gymuned ehangach a'i chynaliadwyedd yn yr hirdymor. Teimlai rhai bod y systemau presennol yn peri stigma i denantiaid tai fforddiadwy.

> *Mae'n hen bryd bod system decach yn cael ei rhoi ar waith fydd o fantais i'r HOLL gymuned.* (Ymgeisydd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru)

Drwy fabwysiadu'r cynnig, credai rhai ymatebwyr y medrai'r Gymdeithas efallai danseilio cynaliadwyedd cymuned drwy wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn rhai grwpiau y byddai angen iddynt geisio cartref mewn man arall, er enghraifft, ymgeiswyr ifanc heb unrhyw brofiad gwaith o gymharu ag ymgeiswyr hŷn gyda hanes o gyflogaeth, gan eto gadarnhau'r angen am ddiffiniad gofalus o ystyr *'mewn cyflogaeth'.* Efallai y byddai '*hanes o gyflogaeth a/neu'r potensial ar gyfer cyflogaeth'* yn ymadrodd mwy addas, ond mae'n amlwg y byddai'n dal angen diffinio hyn yn ofalus.

> *Er bod anghenion lleol yn bwysig iawn wrth ddyrannu tai fforddiadwy, yn arbennig ar gyfer cymunedau gwledig, mae'n rhaid pwysleisio na ddylid eithrio'r grwpiau mwyaf agored i niwed o'r tu fewn i'r Sir fel canlyniad i'r polisïau hyn.* (Cyngor Cymuned)

Os na, pa newidiadau fyddech chi'n eu hawgrymu

Teimlai nifer o ymatebwyr nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell.

- Rhoi'r flaenoriaeth bennaf i ymgeiswyr lleol oedd y sylw a godwyd amlaf.
- Teimlai rhai ymgeiswyr y dylai dod â chyflogaeth i'r gymuned fod yn ystyriaeth.

Teimlai lleiafrif o ymatebwyr y dylid rhoi'r gorau i'r holl gynigion, a dilyn dulliau gweithredu[2] mwy cyffredin, gan awgrymu mireinio cynlluniau pwyntiau presennol neu gynlluniau bandio a weithredwyd yn y siroedd.

C. Ydych chi'n credu y bydd y cynigion o fudd i gymunedau'r Canolbarth?

Unwaith eto, teimlai mwyafrif y rhai a ymatebodd y byddai'r cynigion yn rhoi manteision ychwanegol i gymunedau'r Canolbarth.

> *Mae canfyddiad, cywir neu anghywir, fod tenantiaid cymdeithasau tai yn aml yn dod o ffwrdd ac yn dod â phroblemau gyda nhw. Credwn y dylai eich cynigion newydd ostwng y canfyddiad yma a helpu tenantiaid newydd i integreiddio i'r gymuned er budd y naill a'r llall.* (Cyngor Cymuned).

Roedd hefyd awgrym y byddai'r nodweddion a gynigid yn fwy perthnasol mewn cymunedau llai nag yn y trefi mwy. Mae hyn yn adlewyrchu'r farn fod y flaenoriaeth am ddarparu tai o fewn cymunedau llai yn gynhenid yn hyrwyddo cynaliadwyedd a chydlyniaeth a bod diwallu angen tai mewn gwirionedd yn flaenoriaeth eilaidd.

Os felly, beth ydych chi'n credu fyddai'r manteision?

Roedd y rhai y soniwyd amdanynt yn cynnwys:

- Hyrwyddo ac annog gwirfoddoli o fewn y gymuned.
- Gwrthannog dibyniaeth ar fudd-daliadau.
- Annog cyflogaeth leol.
- Cynyddu gweithgaredd economaidd.
- Cynyddu balchder yn y gymuned a gwella cydlyniaeth gymdeithasol.
- Cadw pobl leol yn y gymuned.
- Tanseilio creu getos o'r rhai sydd dan anfantais gymdeithasol.
- Annog ymddygiad cadarnhaol a gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol dros gyfnod.
- Cael gwared â'r hyn a ymddengys fel cymhellion gwrthnysig systemau presennol.
- Tanseilio stigma bod yn denant tai cymdeithasol drwy fynd i'r afael â'r canfyddiad fod *'tenantiaid tai cymdeithasol yn aml yn dod o ffwrdd ac yn dod â phroblemau gyda nhw'.*

Os na, pam felly?

Roedd y rhai y soniwyd amdanynt yn cynnwys:

- Cosbi rhai ymgeiswyr gyda nodweddion gwarchodedig y mae'n anos iddynt ganfod cyflogaeth neu wirfoddoli.
- Cyfrifoldeb llywodraeth leol ac nid y Gymdeithas yw hyrwyddo cyflogaeth a gwirfoddoli.
- Medrai annog ymgeiswyr nad ydynt yn lleol i'r ardal, ond eu bod mewn cyflogaeth neu'n gwirfoddoli ar hyn o bryd, i symud i mewn i'r ardal.

---

[2] Systemau Pwyntiau, Gosodiadau Seiliedig ar Ddewis, Bandiau Cwota.

- Ni fyddai rhai ymgeiswyr sydd â mwy o angen ar hyn o bryd yn flaenoriaeth uchaf mwyach.
- Ansicrwydd sut y byddid yn annog ymgeiswyr posibl am drosglwyddo i symud i gartrefi llai.
- Mae gwobrwyo'r rhai sy'n aelodau gweithgar o'r gymuned ar hyn o bryd/eisoes mewn cyflogaeth yn methu mynd i'r afael ag anghenion presennol y rhai heb swyddi a'r rhai sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol.

D. Ydych chi'n teimlo y byddai unrhyw grŵp o bobl dan anfantais oherwydd y cynigion?

Fel y nodwyd uchod, roedd dau grŵp eang y teimlai rhai ymatebwyr fyddai dan anfantais:

Ymgeiswyr Digartref

Y prif bryder a fynegwyd yw na fyddai ymgeiswyr sy'n cyflwyno fel bod yn ddigartref o reidrwydd yn cael y flaenoriaeth uchaf ar gyfer cartrefi a ddaw'n wag. Yn rhannol ymddengys fod hyn yn tybio bod ymgeiswyr digartref yn aml heb fod yn bobl leol, nad oes ganddynt hanes cyflogaeth ac nad ydynt yn gwirfoddoli yn y gymuned. Ymddengys hyn yn wrthreddfol i'r Gymdeithas, yn arbennig pan ystyrir mai colli cyflogaeth a'r caledi ariannol dilynol yn aml yw achos digartrefedd. Serch hynny efallai fod angen ymchwil pellach i weld os mai dyma'r sefyllfa mewn gwirionedd.

> *Yng nghyswllt cleientiaid digartref mae tystiolaeth gref fod amser a dreulir mewn llety dros dro, yn arbennig ar gyfer plant, yn cael effaith niweidiol ar iechyd emosiynol a meddyliol person. Teimlir y gallai'r polisi hwn gynyddu'r cyfnod y mae pobl yn gorfod aros i gael cartref parhaol.* (Rhanddeiliad)

Dynododd y broses ymgynghori yr angen i ailystyried system trefn dyddiad syml, gan y bydd hyn yn amlwg er anfantais i achosion digartref nad ydynt yn gwneud cais am gartref adeg y mae bygythiad y byddant yn colli eu cartref.

Ymgeiswyr gyda nodweddion gwarchodedig (gweler yr adran yn union islaw)

Os felly, pwy ydych chi'n deimlo fyddai dan anfantais, a pham?

Mae'r Gymdeithas yn neilltuol o ddiolchgar i un ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn yn faith, gan gyfeirio at ymchwil perthnasol yn y maes. Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys:

- Pobl ifanc mewn addysg neu hyfforddiant (heb fod yn gyflogedig)
- Pobl sy'n methu gweithio gan eu bod yn ofalwyr llawn-amser (heb fod yn gyflogedig)
- Pobl hŷn sy'n wynebu colli eu swyddi (annhebygol o gael eu cyflogi yn y dyfodol agos)
- Ymgeiswyr anabl sydd â llai o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth/gwirfoddoli
- Rhai sy'n dioddef digwyddiadau casineb sy'n ffoi i ardal newydd am ddiogelwch (heb fod yn gyflogedig nac yn gwirfoddoli yn yr ardal a heb unrhyw gysylltiad lleol).
- Ymgeiswyr o grwpiau ethnig sydd â rhwystrau iaith a diwylliannol yn cyfyngu eu mynediad i gyflogaeth a gwirfoddoli.
- Merched – yn fwy tebygol o fod yn aelwydydd un rhiant a/neu'n gofalu am berthnasau eraill, ac felly'n llai tebygol o fod mewn cyflogaeth neu gydag amser i wirfoddoli.

- Grwpiau eraill y mae ‘hunaniaeth gymunedol’ yn llai perthnasol iddynt, ac y byddai diwallu’r meini prawf yn anos iddynt (e.e. cysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw).

Pa newidiadau fyddech chi’n awgrymu i sicrhau nad yw hyn yn digwydd?
Y prif awgrym a wnaethpwyd oedd edrych eto ar dair nodwedd eang - Aur, Arian ac Efydd - i roi ystyriaeth i anghenion y grwpiau hyn neu i barhau gyda’r trefniant system ‘pwyntiau’ bresennol.

E. Ydych chi’n teimlo fod rhywbeth arall y dylai’r Gymdeithas ei ystyried wrth ddyrannu ei chartrefi?

Nododd yr ymatebwyr hynny a wrthwynebai’r cynigion yr angen i roi sylw i ystyriaethau traddodiadol o fewn systemau pwyntiau presennol, megis gorlenwi, problemau meddygol ac ati. Gwnaed awgrymiadau eraill:

- Yr iaith Gymraeg mewn rhai cymunedau.
- Unrhyw hanes o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Rhai sy’n symud i’r gymuned i gymryd swydd.
- Gallu ymgeisydd i brynu cyfran o’r cartref maes o law. Yn yr achos hwn, roedd yr ymatebydd yn gwneud y pwynt y bydd rhai ymgeiswyr cymorth tymor byr, ac y medrent wedyn symud ymlaen gan ryddhau’r cartref i rywun arall.

F. Fel canlyniad i’r cynigion, ydych chi’n teimlo y dylai Cymdeithas Tai Canolbarfth Cymru hefyd ystyried gwneud mwy i hyrwyddo cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli yn y Canolbarth?

Roedd 87% o’r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yma’n cefnogi’r syniad yn cynnwys rhai ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu’r newidiadau ehangach a gynigiwyd. Roedd y rhan fwyaf yn cydnabod fod gan y Gymdeithas, fel menter gymdeithasol, rôl mewn hyrwyddo cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli lleol.

Teimlai nifer o ymatebwyr y dylai unrhyw gynlluniau gwirfoddoli hyrwyddo gweithgareddau gwirfoddol yn benodol yn y gymuned y gwnaed cais amdani. Fodd bynnag, teimlai eraill y dylid cymryd safbwynt ehangach gan dderbyn fod gwirfoddoli yn gynhenid yn weithgaredd cadarnhaol i gael ei annog.

Teimlai un ymatebydd, elusen leol, fod y syniad yn rhoi cyfle i gynyddu gwirfoddoli o fewn y gymuned, ac y medrai gynorthwyo elusennau lleol i ddiwallu eu hamcanion eu hunain, drwy gynyddu’r gronfa o wirfoddolwyr posibl.

Teimlai lleiafrif bach y dylai’r Gymdeithas ganolbwyntio ar ddarparu tai fforddiadwy yn unig ac na ddylai pethau eraill fynd â’u sylw.

G. Ydych chi’n credu y dylai unrhyw landlordiaid eraill yn y Canolbarth ddefnyddio dull tebyg wrth ddyrannu tai?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a gefnogai’r cynigion hefyd yn cefnogi’r syniad y dylai darparwyr tai eraill ddefnyddio dull gweithredu tebyg.

Pa bynnag benderfyniad a gymerir am adolygu'r broses ddyrannu, teimlai llawer y byddai'n gall gwneud hynny fel rhan o drafodaeth ehangach, ac awgrymwyd y byddai datblygu a gweithredu cofrestri tai cyffredin yn fforwm trafod defnyddiol.

H. *Ydych chi'n teimlo fod trefn dyddiad yn ffactor addas ar gyfer penderfynu ar flaenoriaeth, neu a oes amgylchiadau perthnasol eraill y dylid eu hystyried?*

Ychydig o ymatebwyr a wnaeth drafod y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, dangosodd yr ymgynghoriad wall sylfaenol wrth ddefnyddio trefn dyddiad yng nghyswllt ymgeiswyr digartref.

Awgrymodd un sylw diddorol y dylai hynny fod y cyfnod y bu ymgeisydd yn byw yn y llety yn hytrach na'r amser ar y rhestr aros. Adlewyrchodd hyn y farn y dylai pa mor hir y bu rhywun yn byw yn eu hamgylchiadau 'gwael' presennol fod yn ffactor sylweddol.

5. Camau Nesaf

Yn yr adran yma mae'r Gymdeithas yn nodi sut mae'n bwriadu adolygu ei pholisi dyraniadau, ei chynlluniau i hyrwyddo cyflogaeth a gwirfoddoli a sefydlu amserlen ar gyfer gweithredu.

5.2. Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei dogfen ymgynghori ei hunan ar y pwnc ym mis Ebrill 2011. Dan deitl ***'Dogfen Ymgynghori – Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd',*** mae'n nodi'r fframwaith cyfreithiol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio ag ef, ac yn annog cymdeithasau tai i fabwysiadu dull gweithredu tebyg, hyd yn oed os nad oes oblygiad cyfreithiol arnynt i wneud hynny.

Mae'n galonogol i'r Gymdeithas nodi fod y drafft ganllawiau yn caniatáu a chefnogi llawer o'r egwyddorion a hyrwyddodd o fewn ei phapur ymgynghori. Bydd yn anelu i sicrhau fod unrhyw gynllun newydd a ddatblygwyd ar gyfer dyrannu ei chartrefi yn cydymffurfio gyda'r Cod Canllawiau terfynol a gyhoeddwyd.

5.3. Adolygu'r System Dyraniadau

Roedd mwyafrif llethol y bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad o blaid i'r Gymdeithas newid ei pholisi dyraniadau i roi blaenoriaeth i ymgeiswyr lleol, er mwyn annog cyflogaeth ac annog ymddygiad cadarnhaol o fewn y gymuned.

Mewn rhai ffyrdd byddai'n well gan y Gymdeithas fod wedi derbyn lefel uwch o ymateb, ond serch hynny mae'n teimlo fod y gefnogaeth glir a dderbyniodd yn rhoi mandad iddi fynd â'r syniad rhagddo. Yn neilltuol nid oedd unrhyw ymgeisydd o'i rhestr aros yn gwrthwynebu'r cynigion, a dim ond un tenant oedd yn eu gwrthwynebu. Mae hyn yn golygu fod 95% o denantiaid ac ymgeiswyr y Gymdeithas a ymatebodd yn cefnogi'r cynigion.

Wrth ddatblygu system newydd ar gyfer dyrannu cartrefi, bydd y Gymdeithas yn dymuno cymryd dull gweithredu cyd-gynhyrchu gan sefydlu grŵp adolygu bychan (y Grŵp Adolygu) a bydd yn gwahodd cynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol i gymryd rhan. Bydd yn gwahodd cynrychiolwyr y ddau Gyngor Sir, cynrychiolwyr tenantiaid ac,

os yn ymarferol, ymgeisydd. Bydd hefyd yn manteisio ar gynnig caredig cymorth gan Tai Pawb, sefydliad sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru i gynorthwyo'r Grŵp Adolygu.

Gofynnir i'r Grŵp Adolygu:

- Datblygu egwyddorion y papur ymgynghori i fod yn bolisi gwaith.
- Rhoi ystyriaeth i'r drafft God Canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (gweler uchod).
- Cytuno ar ddiffiniad clir o '**bod â hanes o gyflogaeth a/neu'r potensial ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol'** sy'n annog gweithgaredd economaidd;
- Cytuno ar ddiffiniad clir o ystyr **lleol** sydd, er yn fras debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd yng nghyd-destun cytundebau cynllunio awdurdodau lleol (cytundebau Adran 106) yn weithredol ar gyfer holl stoc tai'r Gymdeithas. Drwy wneud hynny disgwylir iddi ymgynghori gyda Swyddogion Cynllunio Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Ceredigion a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a rhoi ystyriaeth ddyladwy i broses ymgynghori Cynlluniau Datblygu Lleol.
- Cytuno ar ddiffiniad gwaith o ystyr bod yn **'gymydog neu ddinesydd da'** sy'n cynnwys diffiniad rhwydd ei ddeall o **wirfoddoli o fewn y gymuned** yn ogystal â diffiniad ehangach, sydd naill ai'n rhy feichus i gael tystiolaeth iddo nac yn dibynnu ar ddisgresiwn swyddogion unigol.
- Datblygu dull sy'n sicrhau nad yw ymgeiswyr digartref dan anfantais oherwydd defnyddio proses trefn dyddiad syml i wahaniaethu rhwng y gwahanol fandiau NEU yn dynodi system syml debyg ar gyfer gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr gyda'r un 'dyfarniad'.
- Rhoi system lle medrir ystyried achosion eithriadol (megis ymgeiswyr yn ffoi rhag digwyddiadau casineb) , heb danseilio egwyddorion sylfaenol a symlrwydd y cynigion.
- Cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb o'r cynllun sy'n datblygu.

Mae'r Gymdeithas yn disgwyl i'r Grŵp Adolygu gynhyrchu'r canllawiau hyn yn ystod haf 2011 ar gyfer eu trafod yn ehangach. Caiff y canllawiau manwl eu rhannu gyda chynrychiolwyr cymunedol ym Mhowys a Cheredigion a rhanddeiliaid allweddol eraill gan ddod i ben mewn seminar ar y pwnc a gynhelir yn haf 2011.

Yn seiliedig ar waith y Grŵp Adolygu a chyswllt dilynol â'r gymuned, bydd y Gymdeithas yn anelu i weithredu system ddyraniadau ddiwygiedig a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2012.

5.4. Cofrestri Tai Cyffredin

Mae'r Gymdeithas yn cymryd rhan yng Nghofrestr Tai Gyffredin Cyngor Sir Ceredigion, ac mae'n cynnal trafodaethau dechreuol gyda Chyngor Sir Powys am ddatblygu cofrestr tai gyffredin ym Mhowys.

Ni ddylai adolygiad y Gymdeithas o'r modd y mae'n dyrannu ei chartrefi gael ei wneud ar wahân, a defnyddir cyfarfodydd cydlynu sefydledig yn y ddwy sir i sicrhau y caiff

gwaith y Grŵp Adolygu ei drafod yn eang. Gall fod yn fwy addas i gymryd ymagwedd sir gyfan a chaiff y Gymdeithas ei llywio gan Bartneriaeth Tai Fforddiadwy Cyngor Sir Powys a Phartneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Ceredigion ar y pwynt yma.

5.5. Hyrwyddo Cyflogaeth

Cred y Gymdeithas bod manteision i roi blaenoriaeth i ymgeiswyr ar gyfer cartrefi sydd â hanes o gyflogaeth neu sydd mewn cyflogaeth ar hyn o bryd. Er ar un lefel ei bod yn bwysig bod unrhyw ddiffiniad a nodir gan y Grŵp Adolygu yn cynnwys ymgeiswyr sydd mewn addysg neu hyfforddiant llawn-amser fydd yn arwain at gyflogaeth, mae hefyd yn bwysig ystyried sut y medrir cefnogi ac annog y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth ar hyn o bryd i fynd i gyflogaeth.

Yn arbennig bydd yr ymgeiswyr hynny nad ydynt erioed wedi gweithio angen cefnogaeth i ymuno â'r farchnad lafur.

Mae contractau fframwaith cyfredol y Gymdeithas ar gyfer darparu gwasanaethau adeiladu yn cynnwys oblygiad i sicrhau bod 80% o'r llafur yn lleol a bod 15% yn brentisiaid neu ar gynlluniau hyfforddiant. Mae hyn yn rhoi cyfle i gynorthwyo tenantiaid presennol a hefyd ymgeiswyr i gyflogaeth.

Bydd y Gymdeithas yn ystyried sut y gall gysylltu'r system gais derfynol a gytunwyd gyda'i threfniadau fframwaith.

Bydd y Gymdeithas hefyd yn dymuno gweithio gydag asiantaethau cefnogaeth presennol sy'n gweithredu yn yr ardal fel sy'n briodol.

5.6. Hyrwyddo Gwirfoddoli/Bod yn Gymydog neu Ddinesydd Da

Mae gwirfoddoli yn weithgaredd clodwiw a hefyd o fudd sylweddol i'r gymuned ehangach. Er enghraifft, amcangyfrifir fod gofalwyr di-dâl yn arbed tua £87 biliwn y flwyddyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig[3]. Mae'n amlwg yn weithgaredd cadarnhaol y dylai'r Gymdeithas ei hyrwyddo a/neu ei gefnogi.

Yn ystod 2011/12 bydd y Gymdeithas yn cysylltu gyda rhwydweithiau gwirfoddolwyr presennol megis Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion i ymchwilio sut y gallai gefnogi gwirfoddoli yn lleol, yng nghyd-destun y system dyraniadau newydd arfaethedig. Yn neilltuol bydd yn dymuno ystyried sut y gall hwyluso gwirfoddoli ymysg ymgeiswyr am ei chartrefi.

Bydd yn ystyried p'un ai a ddylai drefnu ei gynllun gwirfoddoli ei hunan gyda'r nod o ddarparu cymorth wedi'i dargedu i'r cymunedau lle mae ganddi gartrefi neu lle mae'n bwriadu darparu cartrefi o fewn y pum mlynedd nesaf. Lle bynnag sy'n bosibl, bydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau presennol.

Yn olaf, bydd yn ystyried os medrir arddangos bod yn 'gymydog/dinesydd da' drwy hyfforddiant a ph'un ai a ddylai drefnu hyfforddiant o'r fath.

Shane Perkins
Prif Weithredydd - Mai 2011

[3] Astudiaeth gan Brifysgol Leeds

Atodiad 1 – Cwestiynau Allweddol

- Ydych chi'n teimlo fod cynigion y Gymdeithas yn rhoi ffordd briodol o ddyrannu ei chartrefi?

  Os na, pa newidiadau fyddech chi'n eu hawgrymu?

- Ydych chi'n meddwl fod y cynigion yn rhoi cydbwysedd teg rhwng diwallu angen tai a hyrwyddo buddion eraill ar gyfer cymunedau lleol y Canolbarth?

  Os na, pa newidiadau fyddech chi'n eu hawgrymu?

- Ydych chi'n credu y bydd y cynigion o fudd i gymunedau'r Canolbarth?

  Os felly, beth ydych chi'n credu fyddai'r manteision?

  Os na, pam felly?

- Ydych chi'n teimlo y byddai unrhyw grŵp o bobl dan anfantais annheg oherwydd y cynigion?

  Os felly, pwy ydych chi'n deimlo fyddai dan anfantais, a pham?

  Pa newidiadau fyddech chi'n awgrymu i sicrhau nad yw hyn yn digwydd?

- Ydych chi'n teimlo fod rhywbeth arall y dylai'r Gymdeithas ei ystyried wrth ddyrannu ei chartrefi?

- Fel canlyniad i'r cynigion, ydych chi'n teimlo y dylai Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru hefyd ystyried gwneud mwy i hyrwyddo cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli yn y Canolbarth?

- Ydych chi'n credu y dylai unrhyw landlordiaid eraill yn y Canolbarth ddefnyddio duyll tebyg wrth ddyrannu tai?

Atodiad 2 – Diffiniad[4] o Nodweddion Gwarchodedig

Oedran

Lle cyfeirir at hyn, mae'n cyfeirio at berson o oedran arbennig (e.e. 32 mlwydd oed) neu rychwant oedrannau (e.e. 18-30 oed).

Anabledd

Os oes gan berson anabledd mae ganddo ef/hi amhariad corfforol neu feddyliol sydd ag effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu'r person dan sylw i wneud gweithgareddau arferol dydd-i-ddydd.

Ailaseiniad rhyw

Y broses o newid o un rhyw i un arall.

Priodas a phartneriaeth sifil

Diffiniwyd priodas fel 'undeb rhwng dyn a dynes'. Gall cwpl o'r un rhyw gael cydnabyddiaeth gyfreithiol i'w perthynas fel 'partneriaeth sifil'. Mae'n rhaid i bartneriaid sifil gael eu trin yr un fath â chyplau priod ar ystod eang o faterion cyfreithiol.

Beichiogrwydd a mamolaeth

Beichiogrwydd yw'r cyflwr o fod yn feichiog neu'n disgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl y geni, ac mae'n gysylltiedig gyda seibiant mamolaeth yn y cyd-destun cyflogaeth. Mewn cyd-destun heblaw gwaith, mae diogelu rhag gwahaniaethu ar sail mamolaeth am 26 wythnos ar ôl esgor, ac mae hyn yn cynnwys trin dynes yn anffafriol oherwydd ei bod yn bwydo ar y fron.

Hil

Yn cyfeirio at nodweddion gwarchodedig mewn hil. Mae'n cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffiniwyd gan eu hil, lliw a chenedl (yn cynnwys dinasyddiaeth), tarddiad ethnig neu genedlaethol.

Crefydd a chredo

Fel arfer mae gan grefydd yr ystyr a roddir iddo ond mae credo yn cynnwys credoau crefyddol ac athronyddol sy'n cynnwys diffyg credo (h.y. anffyddiaeth). Dylai credo effeithio ar eich dewisiadau bywyd neu'r ffordd yr ydych yn byw er mwyn cael ei gynnwys yn y diffiniad.

Rhyw

Dyn neu ddynes.

---

[4] Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyfeiriadedd rhywiol

P’un a yw atyniad rhywiol person tuag at eu rhyw eu hunain, y rhyw arall neu at y ddau ryw.